YSGRIFENNYDD BWRDD S4C

Cefndir

Mae S4C yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus sy'n darparu gwasanaeth cyfryngau Cymraeg unigryw ar deledu ac ar-lein i wylwyr yng Nghymru, ledled y DU ac yn gynyddol i gynulleidfa ryngwladol.

Nod S4C yw darparu cynnwys a gwasanaethau cyfryngau yn yr iaith Gymraeg sydd o safon uchel, sy'n cynnig adloniant, gwybodaeth ac sy'n ysbrydoli, ac sy'n cyrraedd cymaint o bobl â phosib ar y llwyfannau cyfoes mwyaf priodol.

O fewn un sianel deledu mae S4C yn darparu gwasanaeth gynhwysfawr yn yr iaith Gymraeg ar draws ystod eang o genres ar gyfer pob rhan o'r gymuned yng Nghymru – o ran gallu ieithyddol, oedran a demograffeg cymdeithasol. Mae cynnwys S4C ar gael ar alw ar Clic a BBC iPlayer, ac ar lwyfannau digidol eraill amrywiol. Mae'r cynnwys yn adlewyrchu amrywiaeth o fewn cymdeithas yng Nghymru ac o fewn y gynulleidfa Gymraeg.

Mae S4C yn comisiynu'n cynnwys i gyd gan ein partneriaid yn y sector gynhyrchu annibynnol ac yn derbyn isafswm o ddeg awr yr wythnos o raglenni gan BBC Cymru.

Mae S4C yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus annibynnol sydd wedi ei sefydlu drwy statud. Cyfeirir ato yn y ddeddfwriaeth fel S4C ac Awdurdod S4C.

Mae gan S4C bartneriaeth gyda'r BBC sy'n cynnwys y ddarpariaeth raglenni, cydweithio i ddatblygu prosiectau creadigol newydd a manteisio ar dechnoleg megis iPlayer. Cafodd gweithgareddau darlledu technegol S4C eu huno gyda'r BBC yn 2019. O 2022/23 ymlaen, bydd holl gyllid cyhoeddus S4C yn dod o ffi'r drwydded.

Gwnaeth yr Adolygiad Annibynnol o S4C a gynhaliwyd yn 2018 nifer o argymhellion pell-gyrhaeddol sydd wedi cael eu derbyn gan y Llywodraeth. Cytunwyd y dylai Cylch Gorchwyl S4C gael ei newid i adlewyrchu'r byd digidol ac argymhellwyd y dylai Awdurdod S4C gael ei ddisodli fel corff llywodraethol gan Fwrdd Unedol, fyddai'n cynnwys aelodau anweithredol a swyddogion gweithredol. Mae angen deddfwriaeth newydd i weithredu'r argymhellion hyn, ond tra'n disgwyl i hynny ddigwydd argymhellwyd bod yr Awdurdod yn gweithredu fel Bwrdd Unedol cysgodol. Ers Tachwedd 2018, dyna yw'r drefn gyda rheolau sefydlog newydd a thri aelod gweithredol yn aelodau o'r bwrdd unedol cysgodol. Adnabyddir corff llywodraethol S4C bellach fel "Bwrdd S4C".

Mae Bwrdd S4C yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau S4C, yn atebol am wariant arian cyhoeddus, am benodi'r Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd, ac am sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer darganfod barn gwylwyr, a llywodraethiad pwrpasol ac effeithiol. Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i'r Bwrdd.

Swyddogaeth sylfaenol yr Ysgrifennydd yw cynghori'r Bwrdd, sicrhau trefn lywodraethiad effeithiol ar gyfer y corff, a sicrhau bod y corff yn cydymffurfio â holl ofynion deddfwriaeth a rheoleiddio perthnasol.

Ceir rhagor o wybodaeth am wasanaethau, strwythur a materion ariannol S4C yn yr Adroddiad Blynyddol.

Ysgrifennydd y Bwrdd

Disgrifiad swydd

Swyddogaethau sylfaenol y swydd yw:

- Cynghori'r Bwrdd er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei swyddogaeth yn effeithiol
- Sicrhau bod holl weithgaredd y corff o fewn telerau'r deddfau perthnasol a'r gyfraith yn gyffredinol.
- Sicrhau bod y Bwrdd yn darparu a chyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol S4C yn brydlon.
- Sicrhau bod S4C yn cydymffurfio â gofynion Ofcom lle mae'r rheiny'n statudol berthnasol.
- Cynorthwyo'r Bwrdd i weithredu yn unol ag ymarfer gorau llywodraethu corfforaethol.
- Trefnu a gweinyddu cyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau a sicrhau bod cofnod cywir a phrydlon o drafodaethau'r Bwrdd yn cael eu cadw a'u cytuno, a bod crynodeb cyhoeddus yn cael ei osod ar y wefan.
- Mynychu cyfarfodydd y Tîm Rheoli fel arsylwr a chyfrannu at y broses o sicrhau dealltwriaeth dda rhwng y Bwrdd a'r Tîm Rheoli.
- Cyfrannu at y broses o lunio strategaeth S4C mewn perthynas ag unrhyw ddeddfwriaeth newydd neu weithredu allanol arall all effeithio ar waith S4C.
- Cynnal Cofrestr Risg Strategol y corff a sicrhau bod y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn ei arolygu'n rheolaidd.
- Cynnal ac arolygu trefniadau priodol i sefydlu aelodau newydd o'r Bwrdd a darparu ar gyfer eu hanghenion hyfforddiant
- Goruchwylio gweithdrefn cwynion S4C yn unol â'r Cod Cwynion
- Cynnal perthynas effeithiol gyda swyddogion yr Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
- Cynnal perthynas effeithiol a chydymffurfiol gyda swyddogion y BBC ac unrhyw gorff arall y bydd gan Fwrdd S4C ddyletswydd o atebolrwydd o unrhyw fath iddo yn cynnwys DCMS
- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill.

Atebolrwydd

Yn unol â Rheolau Sefydlog y Bwrdd mae'r Ysgrifennydd yn atebol i'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd. O ddydd i ddydd, mae'n atebol i Gadeirydd y Bwrdd.

Manyleb Person

Nodwedd	Hanfodol	Dymunol
Cymwysterau	Wedi'i addysgu hyd at lefel gradd neu gymhwyster cyfatebol	Gradd yn y gyfraith
Profiad	Profiad o ddelio gyda gwybodaeth gymhleth, gan gynnwys dadansoddi cyfreithiol ac ariannol, ac yn gallu cyflwyno hyn mewn sesiynau briffio cynhwysfawr a chryno ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol. Profiad o ddatblygu perthynas effeithiol gydag ystod eang o bobol, ac yn gallu gweithredu ar lefel y Bwrdd. Profiad o lunio dogfennau'n effeithiol a phrydlon, cynghori ar faterion pwysig ac o ddarparu dadansoddiad rhesymegol o ddogfennau ysgrifenedig a/neu gyflwyniadau llafar. Profiad llywodraethiad. Profiad o reoli tîm. Profiad o ymdrin â deunydd cyfrinachol a sensitif.	Profiad o weithio mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol: y cyfryngau, cyrff cyhoeddus gan gynnwys y gwasanaeth sifil, y gyfraith, cymdeithasau masnach, byd busnes, y byd academaidd neu broffesiynau eraill. Profiad Ariannol Profiad blaenorol o weithredu fel ysgrifennydd cwmni neu gorff cyhoeddus
Sgiliau a Gwybodaeth	Gallu dysgu'n gyflym adelio â'r annisgwyl. Gallu deallusol i ddelio â materion sydd yn dechnegol gymhleth ac yn wleidyddol sensitif. Dealltwriaeth o'r ffactorau a'r cyfyngiadau sy'n berthnasol i gorff sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus. Sylw gweithredol cryf i fanyldeb. Gallu cyfathrebu ar lefel uwch, gan gynnwys lefel uchel o lythrennedd yn Gymraeg a Saesneg. Gallu a hyder i gyfleu negeseuon yn llwyddiannus i aelodau'r Bwrdd, cydweithwyr creadigol, gweision sifil ac eraill.	Gwybodaeth gyfreithiol

	Dealltwriaeth gref o egwyddorion llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys adnabod risg a chydymffurfiaeth. Rhywfaint o brofiad o'r sector gyhoeddus. Sgiliau cynllunio a threfnu o'r radd flaenaf	
Nodweddion Personol	Angen gallu profedig wrth ymateb yn ddoeth ac mewn modd priodol wrth ddelio gydag ystod eang o bobl. Sgiliau dylanwadu a negodi cryf Lefel uchel o gywirdeb personol. Barn gywir. Gallu i weithredu'n annibynnol yr un pryd â gweithio mewn modd cydweithredol gyda rhanddeiliaid eraill. Gallu i weithio o dan bwysau	

Manylion eraill

Lleoliad: Lleoliad arferol eich gwaith fydd Canolfan S4C yr Egin, Heol y Coleg, Caerfyrddin SA31 3EQ ond disgwylir i chi deithio i le bynnag y bydd S4C yn rhesymol yn ei orchymyn.

Rydym yn annog pob cyflogai i gael cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith ac yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg, megis gweithio ystwyth, ynghyd ag ystod eang o batrymau gwaith gwahanol. Mae pob un ohonynt yn amodol ar anghenion busnes.

Oherwydd yr achosion o Coronafeirws, mae S4C wedi lleihau mynediad i'w swyddfeydd ar gyfer staff nad ydynt yn ymwneud â darlledu er mwyn sicrhau diogelwch a lles unigolion ac i ddiogelu darlledu. Felly, efallai y bydd gofyn i chi weithio o bell wrth ymuno â'r sefydliad os yw'r cyfyngiadau hyn yn dal i fod ar waith.

Cyflog: I'w drafod

Cytundeb: Parhaol

Oriau gwaith: 35¾ yr wythnos ond oherwydd natur y swydd disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio ar rai penwythnosau a gwyliau banc. Bydd y cyflog yn cymryd i ystyriaeth yr oriau ychwanegol y mae'n bosibl y bydd angen i chi weithio.

Cyfnod prawf: 6 mis.

Gwyliau: Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau gyda thâl y flwyddyn, y cyfryw gyfnod i redeg o 1 Ionawr.

Pensiwn: Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn ymuno â'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.

Ceisiadau

Dylid anfon ceisiadau erbyn 17.00 y prynhawn ar ddydd Llun 17 Mai 2021 at adnoddau.dynol@s4c.co.uk neu'r adran Adnoddau Dynol, S4C, Canolfan S4C yr Egin, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ. Nid ydym yn derbyn CV.

This is an advert for the position of Secretary to the S4C Board for which the ability to communicate in Welsh and English is essential.

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar unrhyw sail anghyfreithlon, gan gynnwys rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd cymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan neu lawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol, defnydd o iaith neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif. Mae S4C yn croesawu ac yn cymell ceisiadau am swyddi oddi wrth grwpiau allai fod wedi eu tangynrychioli gan gynnwys merched, pobl dduon ac o leiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Gweithredir egwyddorion cystadleuaeth agored a theg a phenderfynir ar benodiadau ar sail teilyngdod.